



Cip cyflym

Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith fawr ar bobl ifanc yng Nghymru mewn sawl ffordd, gan effeithio ar eu sicrwydd ariannol, iechyd meddwl, sefydlogrwydd tai & gallu i fanteisio ar gyfleoedd addysg & chyflogaeth

EFFEITHIAU

Straen Ariannol

Cafodd pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig felly'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu neu'n dal ym myd addysg, eu bwrw'n galed gan y cynnydd yng nghostau bwyd, tai ac ynni. Mae llawer yn dweud eu bod yn methu fforddio hanfodion, ac nad yw cyflogau'n codi mor gyflym â chwyddiant

Ansawdd Bywyd

Mae costau byw yn codi yn golygu fod llawer o bobl ifanc yn torri ar eu gwario anhanfodol, gweithgareddau cymdeithasol, teithio & hamdden. Mae'r gostyngiad hwn yn ansawdd eu bywydau wedi cyfrannu hefyd at deimlo'n unig ac anfodlon

Iechyd Meddwl

Mae pwysau ariannol wedi arwain at straen, gorbryder & phroblemau iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc. Mae'r ansicrwydd am eu dyfodol, oherwydd tai, swyddi, neu ansicrwydd ariannol, wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n ansicr ac ansefydlog

Rhwystrau rhag cael Addysg

Mae costau'n codi wedi'l gwneud yn anoddach i fyfyrwyr dalu costau addysg fel teithio, llety & deunyddiau cyrsiau. Mae rhai pobl ifanc wedi gorfod cymryd swyddi rhan-amser ac astudio ar yr un pryd, gan ychwanegu at y pwysau o gydbwyso gwaith, addysg, a'u bywydau personol.

Heriau

Nid oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn proses ymgysylltu draddodiadol yn aml gan nad ydynt yn teimlo ei bod yn berthnasol iddynt; maen nhw'n aml yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt ac nad yw eu llais yn cael ei glywed. Mae canfyddiadau negyddol o bobl ifanc yn aml yn creu rhwystr ac yn eu gwneud yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan.

Cyfleoedd & Atebion Allweddol

- Cynghorau Ieuenctid**
Beth am sefydlu cyngor ieuenctid lle y gall grŵp o bobl ifanc gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion, awgrymu mentrau a chynnig adborth ar benderfyniadau'r cyngor.
- Digwyddiadau Ymgysylltu â Phobl Ifanc**
Trefnwch ddigwyddiadau er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc yn arbennig neu ceisiwch gael gwybod beth sydd ar gael yn eich ardal yn barod a dewiswch gyfleoedd i ymgysylltu.
- Cyfathrebu**
Mae cyfathrebu a gwaith allestyn rheolaidd yn gallu rhoi gwybod i bobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael. Mae defnyddio llwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol yn gallu helpu cynghorau i gysylltu.
- Cydnabod & Dathlu Pobl Ifanc**
Mae cydnabod y cyfraniadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud yn eu cymunedau yn gallu cymell ac ysbrydoli eraill
- Partneriaethau & Rhaglenni Addysgol**
Mae partneru gydag ysgolion, colegau a mudiadau ieuenctid yn gallu integreiddio addysg ddinesig i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Mae gweithio mewn partneriaeth â grwpiau ieuenctid eraill yn gallu adeiladu perthnasoedd.

Gweithiwch gyda myfyrwyr Dug Caeredin & Fagloriaeth Gymreig i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli

Darparwch grantiau i fudiadau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc yn eich cymuned

Cydweithiwch gyda darparwyr eraill er mwyn darparu gwasanaethau ar eich rhan

Pam ddylech chi ei wneud?

Trwy chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phobl ifanc, gall cynghorau cymuned & thref ofalu fod eu penderfyniadau yn fwy cynrychioliadol & effeithiol, gan arwain at gymunedau cryfach & mwy cydnherth. Mae pobl ifanc yn cynnig ffyrdd gwahanol o edrych ar broblemau ac atebion unigryw iddynt, ac maent yn aml yn gweld pethau o ongl wahanol i oedolion.

Gwybodaeth Ddefnyddiol



Grymoedd

Grym i benodi Cynrychiolyddion Ifanc – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a 118-119

Grym i ddarparu adeiladau i'w defnyddio gan glybiau neu gymdeithasau a chanddynt amcanion athletaidd, cymdeithasol neu hamdden – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 19

Grym i ddarparu ystod eang o gyfleusterau hamdden – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 19

Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.
admin@onevoicewales.wales

Diogelu

Rhaid i Gynghorau Cymuned & Thref gyflawni dyletswydd i ofalu wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'n arfer gorau i gael Polisi Diogelu sy'n berthnasol i weithgarwch eich Cyngor.

[Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)

Mae tîm ymgysylltu Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn gweithio gydag oedolion y mae eu gwaith yn effeithio plant a phobl ifanc, gan gynnwys Cynghorau, ac mae'n cynnig sesiwn ragarweiniol i'r UNCRC, a sut all hawliau helpu llunio gwasanaethau ar gyfer plant.

Diweddariad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc: Ionawr 2024

Prosiect GWBR Planed: Pecyn Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Gwasanaethau & Phrosiectau Ar Hyn o Bryd

Mae **Cyngor Ieuenctid Pen-bre & Phorth Tywyn**, sy'n cynnwys pobl ifanc 11-18 oed, yn cydweithio gyda'r Cyngor Tref i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

Mae llawer o gynghorau ledled Cymru, gan gynnwys **Cyngor Cymuned Fan**, yn cynnig gweithgareddau haf ar gyfer pobl ifanc, megis sesiynau sgefrfyddio rhad ac am ddim

Yn 2023, lansiodd **Cyngor Tref Llanelli** Wasanaeth Chwaraeon, Ieuenctid a Gweithgareddau Newydd, gan gydweithio gyda grwpiau cymunedol, ysgolion, a chlybiau chwaraeon i wella a chreu gweithgareddau newydd rhad ac am ddim i bobl ifanc.

Mae **Cyngor Cymuned Offa** yn ariannu gweithwyr chwarae mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Wrecsam i ddarparu gweithgareddau adeg gwyliau ysgol

Trefnodd Cyngor Tref Blaenafon weithdai ffotograffiaeth gyda Llysgenhadon Ieuenctid Treftadaeth y Byd i greu llyfr ac arddangosfa yn amlygu eu gwaith, gan feithrin balchder yn eu hamgylchedd.

Mae Cyngor Tref Castell-nedd wedi penodi myfyriwr lleol yn Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid fydd yn gyswllt allweddol rhwng y Cyngor ac ysgolion y Ward. Mae hi wedi sefydlu rhwydwaith myfyrwyr er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am faterion ieuenctid ac awgrymu mentrau fel hybiau cymdeithasol a mwy o ddigwyddiadau i bobl ifanc..

Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib



- [Cronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol](#)
- [Moondance Foundation](#)
- [BBC Plant mewn Angen](#)
- [Ymddiriedolaeth Cymunedol Cod Post](#)

Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau grant effeithiol'



Gwylwch Weminar Un Llais Cymru ar Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Eisiau Gwybod Mwy?



Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:



CoLC@onevoicewales.wales



<https://bit.ly/3KYHftK>